CYFARFOD GRŴP LLYWIO AELODAU PROSIECT GWYRDD DYDD MERCHER, 22 GORFFENNAF 2009 4.30PM	
Ystafell Bwyllgor 2, Neuadd y Sir, Caerdydd	
Yn Bresennol:	**Llythrennau Cyntaf**
Aelodau Etholedig: Y Cynghorydd Geoff Cox, Cyngor Bro Morgannwg Y Cynghorydd Gordon Kemp, Cyngor Bro Morgannwg Y Cynghorydd Margaret Jones, Cyngor Sir Caerdydd Y Cynghorydd Mark Stephens, Cyngor Sir Caerdydd Y Cynghorydd Peter Fox, Cyngor Sir Fynwy Y Cynghorydd Eric Saxon, Cyngor Sir Fynwy	 GC GK MJ MS PF ES
Swyddogion: Stephen Davison, Cyngor Dinas Casnewydd (Prif Swyddog Technegol) Clifford Parish, Cyngor Bro Morgannwg Stephen Phillips, Cyngor Caerdydd Elizabeth Weale, Cyngor Caerdydd Mark Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Tara King, Rheolwr Prosiectau	 SD CP SP LW MW TK
Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Lyn Ackerman, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Y Cynghorydd Colin Mann, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Y Cynghorydd David Atwell, Cyngor Dinas Casnewydd Y Cynghorydd David Fouweather, Cyngor Dinas Casnewydd Dave Harris, Cyngor Sir Fynwy	 LA CM DA DF DH

Rhif	Eitem	Cam Gweithredu
1.	**Enwebu Cadeirydd Dros Dro**	
24/09	Enwebodd y Cynghorydd Cox y Cynghorydd Gordon Kemp i fod yn Gadeirydd y Panel a chytunwyd y byddai'r Cynghorydd Kemp yn ymgymryd â rôl y Cadeirydd yn y cyfarfod.	Nodwyd
2.	**Ymddiheuriadau**	
25/09	Rhestrwyd yr holl ymddiheuriadau ar frig yr agenda.	Nodwyd
3.	**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**	
26/09	Newid i'r cofnodion. Dylai Eitem rhif 3 newid i ddarllen: "Adroddiad Cyffredin i'w ystyried gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar 28 Gorffennaf 09 a gan Gyngor Sir Fynwy ar 30 Gorffennaf 09." Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2009.	Cytunwyd Nodwyd
4.	**Materion yn Codi**	
27/09	Nid oedd unrhyw faterion i'w hystyried.	Nodwyd
5.	**Cynllun Caffael Drafft**	
28/09	TK i roi cyflwyniad sy'n amlinellu'r gwaith a wnaed hyd yn hyn ar ddatblygu: Manyleb Allgynnyrch Meini Prawf Dethol Meini Prawf Gwerthuso Amserlen Fframwaith Gwerthuso Atebodd TK nifer o gwestiynau a godwyd yn ystod y cyflwyniad. Eglurwyd mai'r dull a gynigir oedd y byddai materion o ansawdd yn cael eu blaenoriaethu'n uchel yn ystod camau cychwynnol y broses drafod gystadleuol, gan roi mwy o bwyslais ar gost erbyn diwedd y broses. Cynigiwyd hyn fel mai dim ond datrysiadau sy'n bodloni gofynion ansawdd y prosiect a fyddai'n cael eu hystyried. Tynnodd SP sylw at faterion cystadleuaeth, ynghyd â phrosesau ceisiadau cynllunio. Disgwyliwyd y byddai diddordeb ar gyfer tendro yn gystadleuol, yn enwedig yn yr hinsawdd	

	economaidd bresennol. Byddai'n rhaid i'r meini prawf gwerthuso fod yn drylwyr. Hysbysodd TK aelodau y byddai proses ymgynghori yn cael ei dilyn a fydd yn cynnwys Aelodau o'r 5 awdurdod perthnasol, swyddogion o LICC, awdurdodau lleol cyfagos a grwpiau o ddiddordeb amrywiol. Dywedodd EW mai pennu'r meini prawf gwerthuso a'r pwysoliadau oedd un o'r tasgau pwysicaf yn y broses gaffael. I helpu'r Cydbwyllgor arfaethedig i wneud penderfyniadau o'r fath cynigiwyd cynnal gweithdy aelodau i roi gwybodaeth a chyngor manwl ar faterion o'r fath.	
6.	**Cynllun Ymgysylltu Rhanddeiliaid Drafft**	
29/09	Cafodd y Panel gyflwyniad ar: Cynllun Ymgysylltu Rhanddeiliaid Gwaith Cyfathrebu Allanol a Gynhaliwyd yn Ystod y Cyfnod Cyn Caffael Dulliau Cyfathrebu Allanol yn Ystod y Flwyddyn Gyntaf o Gaffael Dulliau Cyfathrebu Mewnol yn Ystod y Flwyddyn Gyntaf o Gaffael Cafodd y Panel wybodaeth hefyd am y gynhadledd i'r Wasg arfaethedig, y bwriedir ei chynnal ar 5 Hydref 2009, i gyhoeddi datblygiad Prosiect Gwyrdd o ran caffael. Soniodd SD wrth bawb am y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yng Nghasnewydd. Roedd y canlyniad yn foddhaol ac fe'i ystyriwyd fel cynnydd o ran datblygu'r broses. Cafwyd trafodaeth am y ffordd orau o gynnwys ac ystyried sylwadau gan randdeiliaid ar gyfer y digwyddiad rhanddeiliaid ar gyfer y meini prawf gwerthuso, y gallai rhai fod yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r prosiect. Cytunwyd mai'r ffordd orau oedd ymgynghori a chynnwys pob parti o'r fath cyhyd ag y bo'n ymarferol.	Nodwyd
7.	**Cydbwyllgor**	
30/09	Amlinellodd EW sut y byddai'r Cydbwyllgor yn cael ei sefydlu a pharhaodd i sôn am y prif gylch gorchwyl. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor a bennir yng Nghytundeb Cydweithio 1, sydd wedi'i ddosbarthu i'r aelodau ac yn rhan o adroddiad pob awdurdod,	Nodwyd

	yn ceisio cael ei gymeradwyo er mwyn bwrw ymlaen â'r prosiect. Paratowyd protocol nad wy'n rhwymol gyfreithiol ar gyfer y Cydbwyllgor a chafodd ei ddosbarthu i swyddog cyfreithiol pob awdurdod i'w gymeradwyo. Mae hwn yn nodi cynigion ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Cydbwyllgor ac ati. Prif dasgau cychwynnol y Cydbwyllgor fyddai ystyried a chymeradwyo: Rhaglen Waith Meini Prawf Gwerthuso Byddai'r Cydbwyllgor, ar ôl ei sefydlu, ar agor i'r cyhoedd a byddai'n cael ei weinyddu fel unrhyw gyfarfod arall o'r Cyngor. Pan fydd materion masnachol sensitif yn cael eu hystyried bydd darpariaeth i ystyried materion o'r fath yn breifat (y cyhoedd wedi'u heithrio) Byddai'r Cydbwyllgor yn cael ei wasanaethu gan yr awdurdod sy'n ei gynnal. Byddai'r Cydbwyllgor yn cael ei gynghori gan swyddogion Tîm Prosiect Gwyrdd. Y bwriad oedd galw cyfarfod gan ddefnyddio'r gweithdrefnau presennol ond rhagwelwyd y byddai Aelodau'r Cydbwyllgor yn derbyn eu gwaith papur 10 diwrnod clir cyn y cyfarfod, lle bynnag y bo'n ymarferol.	
8	**Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ymweliadau â Safleoedd**	
31/09	Nododd TK fod yr amserlen ar gyfer ymweliadau â safleoedd wedi'i dosbarthu'n flaenorol. Awgrymwyd tri safle. Frog Island – Math MBT Llundain Southampton – Cyfleuster Ynni o Wastraff Ynys Wyth – Nwyeiddio Dywedwyd wrth y Panel fod yr ymweliad ag Ynys Wyth wedi'i ganslo oherwydd gwaith cynnal a chadw hanfodol a byddent yn ailymweld â'r safle os yn bosibl. Amlinellodd TK yr amserlen ar gyfer yr ymweliadau ar y gweill.	
9	**Unrhyw Fater Arall**	

32/09	Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfarfod a thîm y prosiect a'r cynnydd a wnaed yn ystod y 18 mis diwethaf fel Aelodau o'r Grŵp Llywio ac edrychodd ymlaen at sefydlu'r Cydbwyllgor ym mis Medi.	Nodwyd
10	**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**	
	Cynhelir cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 07 Medi. Dyddiad, amser a lleoliad i'w cadarnhau.	VT Cam Gweithredu 22.08.09